

Pecyn Cais ar gyfer y Cadeirydd Annibynnol

PADDLE
CYMRU



CROESO GAN Y BWRDD

Diolch am eich diddordeb mewn dod yn Gadeirydd Annibynnol Paddle Cymru.

Mae Paddle Cymru ar bwynt pwysig yn ei ddatblygiad. Fel llawer o Gyrff Llywodraethu Cenedlaethol, rydym yn gweithredu mewn amgylchedd heriol, gyda galwadau cynyddol ar ein hadnoddau ac angen parhau i gryfhau'r ffordd rydym yn cefnogi ein haelodau, ein clybiau a'n disgyblaethau.

Er gwaethaf yr heriau hyn, credwn fod cyfle sylweddol o'n blaenau. Mae gan chwaraeon padlo yng Nghymru gymuned gref ac angerddol, gwirfoddolwyr ymroddedig, brwdfrydig a photensial enfawr ar gyfer twf a datblygiad.

Rydym yn chwilio am Gadeirydd Annibynnol a all ddarparu arweinyddiaeth strategol a phrofiad helpu i lunio pennod nesaf Paddle Cymru, gan hyrwyddo gweledigaeth feiddgar sy'n galluogi chwaraeon padlo yng Nghymru i dyfu, ffynnu ac ysbrydoli mwy o bobl nag erioed o'r blaen.



AMDANOM NI

Ein pwrpas yw: “Ysbrydoli pobl i ddilyn angerdd am badlo; er mwyn iechyd, mwynhad, cyfeillgarwch, her a chyflawniad”

Paddle Cymru yw'r Corff Llywodraethu Cenedlaethol ar gyfer chwaraeon padlo yng Nghymru, gan gefnogi dros 4,000 o aelodau. Rydym yn hyrwyddo chwaraeon padlo ar bob lefel, o gyflwyno pobl i'r dŵr i gefnogi llwybrau perfformiad a chynrychiolaeth genedlaethol. Mae Cymru yn cynnig rhai o amgylcheddau padlo mwyaf ysblennydd y byd, ac rydym wedi ymrwymo i gadw'r cyfleoedd hyn yn hygyrch, yn ddiogel ac yn gynaliadwy. Wrth i ni edrych ymlaen, ein nod yw cynyddu cyfranogiad, cryfhau ein sefydliad ac ysbrydoli mwy o bobl ledled Cymru i fwynhau manteision chwaraeon padlo.





MAE EIN GWAITH YN CYNNWYS:

- Cefnogi clybiau, gwirfoddolwyr a chyfranogwyr ledled Cymru.
- Darparu hyfforddi, arweinyddiaeth a hyfforddiant diogelwch.
- Creu cyfleoedd i gymryd rhan ac i fod yn rhan o chwaraeon padlo gydol oes.
- Cefnogi datblygu talent a llwybrau perfformiad.
- Trefnu a chefnogi digwyddiadau cenedlaethol a rhyngwladol.
- Hyrwyddo chwaraeon padlo a chynrychioli buddiannau ein haelodau.

Mae ein tîm staff wedi'u lleoli ledled Cymru, gyda swyddfeydd yng Nghanolfan Genedlaethol Dŵr Gwyn y Bala ac ym mhwynt canolog Chwaraeon Cymru yng Nghaerdydd.



PRIF GYFRIFOLDEBAU

Bydd ein Cadeirydd newydd yn:

- Darparu arweinyddiaeth a chymorth cryf ac effeithiol i'r Bwrdd ac i Paddle Cymru.
- Sicrhau llywodraethu effeithiol ar draws y sefydliad.
- Mynychu cyfarfodydd gyda phartneriaid strategol, gan gynnwys Chwaraeon Cymru, a gweithredu fel llysgennad i Paddle Cymru mewn digwyddiadau cyhoeddus pan fo angen.
- Gweithio'n agos gyda'r Prif Swyddog Gweithredol i oruchwylio rheolaeth Cynllun Strategol Paddle Cymru.

Dylai ymgeiswyr ar gyfer y swydd hon allu dangos profiad effeithiol o weithio ar Fwrdd, dealltwriaeth o faterion llywodraethu, a phrofiad masnachol neu brofiad ym maes sefydliadau dielw. Nid oes angen i ymgeiswyr llwyddiannus fod â phrofiad yn y sector chwaraeon; croesewir ymgeiswyr o sectorau eraill sy'n gallu cyflwyno syniadau newydd.

Yn benodol, rydym yn chwilio am bobl sy'n gallu cynnig sgiliau, gwybodaeth a phrofiad mewn un neu ragor o'r meysydd canlynol:

- Llywodraethu ac arweinyddiaeth yn y sector cyhoeddus neu'r sector elusennol
- Cydymffurfiaeth gyfreithiol
- Hysbysebu a Marchnata
- Diogelu plant ac oedolion
- Profiad corfforaethol
- Cynhyrchu incwm – gan gynnwys cyllid statudol a/neu grantiau

YMRWYMIAD AMSER

Disgwylir i'r Cadeirydd fynychu o leiaf chwe chyfarfod o'r Bwrdd y flwyddyn, yn ogystal â chyfarfodydd ychwanegol, sesiynau cyswllt a thrafodaethau sy'n codi drwy gydol y flwyddyn. Mae hyn yn cynnwys cyfathrebu rheolaidd â'r Prif Swyddog Gweithredol ac aelodau'r Bwrdd i sicrhau arweinyddiaeth gref a chyson.



GWYBODAETH BELLACH

I wneud cais, cyflwynwch y canlynol:

- CV cyfredol.
- Llythyr eglurhaol yn disgrifio eich diddordeb yn y rôl a'r profiad y byddech yn ei ddwyn i Paddle Cymru.

Dylid anfon ceisiadau at: Megan.Hamer-Evans@PaddleCymru.org.uk

Dyddiad cau: Canol dydd, Dydd Gwener 23 Hydref

Gall ymgeiswyr sydd am wybod mwy am gyfeiriad y dyfodol Paddle Cymru weld ein [Strategy 2024–2028](#).





DATGANIAD CYFLEOEDD CYFARTAL A CHYNHWYSEDD

Mae Paddle Cymru wedi ymrwymo'n gadarn i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar draws pob maes o'n gwaith. Rydym yn ceisio creu amgylchedd lle mae unigolion o bob cefndir yn teimlo bod croeso iddynt, eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u grymuso i gyfrannu.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd mynd i'r afael â diffyg cynrychiolaeth o fewn ein camp a'n sefydliad, ac rydym yn annog ceisiadau yn arbennig gan unigolion sy'n perthyn i grwpiau sydd ar hyn o bryd yn cael eu tangynrychioli mewn chwaraeon padlo a rolau llywodraethu.

Gwneir pob penodiad ar sail teilyngdod, a chaiff ymgeiswyr eu hasesu'n deg ac yn dryloyw yn unol â'n gwerthoedd a'n hymrwymiad i arferion cynhwysol.

Os hoffech wneud cais mewn fformat gwahanol neu os oes angen addasiadau arnoch yn ystod y broses ymgeisio, cysylltwch â ni yn Admin@paddlecymru.org.uk



PADDLE
CYMRU



PADDLE
CYMRU

#ShePaddles Cymru

sportwales
chwaraeon cymru



ceufad
KAYAK

